

## **Cymdeithas Llywodraethwyr Rhondda Cynon Taf**

### **Cyfansoddiad – Mai 2017**

#### **1. Teitl**

1.1. Enw'r gymdeithas fydd “Cymdeithas Llywodraethwyr Rhondda Cynon Taf”.

#### **2. Nodau ac amcanion**

2.1 Bod yn fforwm annibynnol ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf;

2.2 Hyrwyddo'r arfer orau ym maes llywodraethu yn ysgolion Rhondda Cynon Taf;

2.3 Darparu gwybodaeth reolaidd ar gyfer Cyrff Llywodraethu ynglŷn â gwaith y Gymdeithas ac annog Cyrff Llywodraethu i gyflwyno materion sy'n achosi pryder iddyn nhw i'r Gymdeithas i'w trafod;

2.4 Cefnogi partneriaethau gwaith rhwng cyrff amrywiol, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, sefydliadau i athrawon, rhieni, Consortiwm Canolbarth y De, a Llywodraethwyr Cymru;

2.5 Hyrwyddo cefnogaeth rhwng ysgolion a rhwng Cyrff Llywodraethu;

2.6 Dosbarthu'r wybodaeth berthnasol i Gyrff Llywodraethu yn Rhondda Cynon Taf;

2.7 Bod yn fforwm ymgynghori sy'n cynrychioli Cyrff Llywodraethu yn Rhondda Cynon Taf; a

2.8 Craffu ar strategaethau a pholisïau yn ymwneud ag ysgolion a Chyrff Llywodraethu, pan fo'n briodol.

#### **3. Aelodau'r Grŵp**

3.1 Bydd aelodau'r Gymdeithas yn cynnwys pob llywodraethwr ym mhob ysgol yn Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf. Bydd llywodraethwyr yn aelodau o'r Gymdeithas cyhyd â'u bod nhw yn y swydd. Bydd pob corff llywodraethu yn enwebu cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraethwyr Rhondda Cynon Taf.

3.2 Caiff yr Awdurdod Lleol ei wahodd i enwebu dau aelod ex officio i'r Gymdeithas. Bydd un ohonyn nhw'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, neu'n dirprwyo i Aelod arall o'r Cabinet yn ei absenoldeb, a bydd y llall yn Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes.

3.3 Caiff Consortiwm Canolbarth y De ei wahodd i enwebu aelod ex officio i'r Gymdeithas.

3.4 Bydd y Gymdeithas yn enwebu aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Rhondda Cynon Taf i'w chynrychioli ar Fwrdd Llywodraethwyr Cymru.

#### **4. Y Pwyllgor Rheoli**

4.1 Bydd gwaith rheoli cyffredinol y Gymdeithas dan gyfrifoldeb pwyllgor rheoli. Byddwn ni'n cyfeirio ato o hyn ymlaen fel "y Pwyllgor Gweithredol".

4.2 Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys uchafswm o 15 o lywodraethwyr, a gaiff eu penodi, drwy etholiad, bob dwy flynedd. Byddan nhw'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector. Os bydd swydd wag rhwng etholiadau, bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cael cyfethol llywodraethwr i'r swydd tan yr etholiad nesaf.

4.3 Bydd aelodaeth unigolyn o'r Pwyllgor Gweithredol yn dod i ben os bydd yr unigolyn hwnnw yn absennol o ddau gyfarfod yn olynol heb gynnig rheswm teilwng, ym marn y Pwyllgor Gweithredol, dros yr absenoldeb.

4.4 Cworwm y Pwyllgor Gweithredol fydd 50% o nifer yr aelodau. Bydd gan yr holl aelodau, heblaw aelodau ex officio, yr hawl i bleidleisio. Caiff pob pwnc ei benderfynu ar sail pleidlais fwyafrifol gan yr aelodau sy'n bresennol ac sy'n bwrw eu pleidlais ar y pwnc dan sylw. Yn achos pleidlais gyfartal, y Cadeirydd fydd â'r bleidlais fwrw.

4.5 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol yn agored i wylwyr sy ddim yn bwrw eu pleidlais, a hynny ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

4.6 Caiff y Pwyllgor Gweithredol enwebu person(au) i wasanaethu ar weithgorau/pwyllgorau'r Awdurdod Lleol, pan fyddan nhw'n cael eu gwahodd i wneud hynny gan yr Awdurdod Lleol neu gyrff perthnasol eraill.

#### **5. Cyfarfodydd**

5.1 Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cynnal o leiaf un cyfarfod y tymor. Caiff un cyfarfod ei ddynodi'n Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Caiff pob llywodraethwr ei wahodd i ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

5.2 Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn cwrdd cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Caiff y llywodraethwr cyswllt ei wahodd i fod yn gynrychiolydd y Corff Llywodraethu.

5.3 Ym mhob cyfarfod, cofnodion y cyfarfod blaenorol fydd yr eitem gyntaf ar yr agenda ac, os bydd yr aelodau'n cytuno eu bod nhw'n gywir, byddan nhw'n cael eu llofnodi fel rhai cywir gan y Cadeirydd.

5.4 Caiff cofnodion y Gymdeithas, ynghyd â chopïau o adroddiadau, eu cadw gan yr Awdurdod Lleol a chaiff copïau eu hanfon at bob Corff Llywodraethu, sy'n rhan o'r Gymdeithas, yn dilyn y cyfarfod.

5.5 Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn enwebu clerc o blith ei aelodau.

5.6 Bydd Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, neu ei gynrychiolydd, yn cael mynychu holl gyfarfodydd y Gymdeithas, gan weithredu mewn rôl ymgynghorol.

## **6. Swyddogion**

6.1 Yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Pwyllgor Gweithredol yn ethol, o blith ei aelodau, Gadeirydd, Is-gadeirydd, Clerc, a Swyddog Cyfathrebu a Gwybodaeth y Gymdeithas. Os bydd y Cadeirydd yn absennol o unrhyw gyfarfod, bydd yr Is-gadeirydd yn llywyddu. Os na fydd y naill na'r llall yn bresennol, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ethol Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn unig.

## **7. Ethol ar gyfer lle ar y Pwyllgor**

7.1 Caiff llythyr a ffurflen enwebu eu hanfon at Gadeirydd pob Corff Llywodraethu, llywodraethwr cyswllt Cymdeithas Llywodraethwyr Rhondda Cynon Taf, a Phenaethiaid. Bydd y ffurflen yn cynnwys dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

7.2 Bydd gan bob Corff Llywodraethu yr hawl i enwebu un o'i lywodraethwyr i'r Pwyllgor Gweithredol.

7.3 Os bydd nifer yr enwebiadau, yn dilyn y broses enwebu, yn uwch na'r 15 lle sydd ar gael, caiff pleidlais gudd ei chynnal ymhlith y Cyrff Llywodraethu.

7.4 Bydd gan bob Corff Llywodraethu yr hawl i gyflwyno un papur pleidleisio.

7.5 Os bydd nifer yr enwebiadau yn llai na nifer y swyddi, bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cael cyfethol llywodraethwyr i'r swyddi tan yr etholiad nesaf.

7.6 Bydd y Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr yn gweinyddu'r etholiad.

## **8. Newidiadau Parhaol i'r Cyfansoddiad**

8.1 Caiff newidiadau parhaol i'r Cyfansoddiad dim ond eu gwneud gan y Pwyllgor Gweithredol yn dilyn ymgynghori â phob Corff Llywodraethu yn Rhondda Cynon Taf. Mae modd i lywodraethwyr ofyn am newidiadau i'r cyfansoddiad trwy wneud cais ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Gweithredol, wedi'i lofnodi gan ddim llai na 13 o Gyrrff Llywodraethu ysgolion RhCT. Rhaid i'r llywodraethwyr yma gynrychioli 13 Corff Llywodraethu gwahanol. Os yw llywodraethwyr yn eistedd ar fwy nag un Corff Llywodraethu, byddwn ni'n cyfrif un Corff Llywodraethu yn unig.

8.2 Caiff unrhyw newidiadau eu cyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf, ynghyd ag esboniad am newidiadau o'r fath.